Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 07-05-19 – 7.30pm**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), John Lloyd Williams, Phyllis Purchase, Wendy Williams, Austin Roberts, Arthur Williams, Gwilym Williams a Delyth Wynne (Clerc) |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Ceri Leeder a Gwenan Roberts |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Gweler uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (02/04/19).

   Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng Wendy ac eiliwyd gan Cyng Phyllis.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Llwybr Chwarel y Nant:**
     Cyng Austin wedi holi. Cafodd y ffens ei godi ar ôl 1993. Mae angen edrych yn y cofnodion.

   - **Polyn Banner:**
     Dywedodd Cyng Austin bod y polyn rhy uchel a mae problem gyda'r rhaff. Cyng Gwilym a Cyng Austin i edrych i mewn i'r mater yn y ddau fis nesaf.

   - **Set Coffa Bryn Hir:**
     Cyng Austin i ymholi gyda ERF.

   - **Sgip Cymunedol:**
     Angen poster i hysbysu'r sgip ar gyfer yr 25/05/19.

   - **Conwy Cynhaliol:**
     Wedi cael ein derbyn – mae £25.00 ar gael.

   - **Llosgi Ysbwriel:**
     Cyng Austin wedi cael gair gyda ERF. Yn mynd i anfon swyddog yno yfory i edrych ar y mater.

- **Bin y Fynwent:**
  Bydd rhaid talu am un arall a talu am ei wagio. Mae posib cael bocs 'compost' gan CBSC.

- **Tyllau ar Ffordd Maenan:**
  Dim diweddariad.

- **Mainc er cof am Cyng Emlyn Davies:**
  Dim diweddariad.

- **Tro Henblas:**
  Cyng Austin wedi cyfarfod gyda Emyr Jones, CBSC ar y safle. CBSC yn mynd i anfon lori i wagio gwteri y pentref gyd.

- **Sedd Wag y Cyngor:**
  E-bost gan Geraint Owen, Llais Afon yn mynegi diddordeb. Cynghorwyr yn cytuno i gynnig sedd ar y Cyngor i Geraint Owen.

- **Warden Llifogydd:**
  Y Cadeirydd wedi debyn e-bost gan Aled Meredith, Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng 6 Sir y Gogledd. Aled wdi gyrru copi drafft o dempled. Y Cadeirydd wedi gofyn iddo ymuno yn y cyfarfod nesaf. Y Cadeirydd am yrru copi o'r temled drafft i'r cynghorwyr.

- **Mynwent y Cyngor – Coed Dathlu:**
  Pedwar neu pump o goed afalau Ynys Enlli wedi ei planu yn fynwent y cyngor nid yn mynwent yr eglwys.

- **Llefydd Amlosgi yn y Fynwent:**
  Lle i bedwar ar ôl ar hyn o bryd. Ddim angen ystyried ar hyn o bryd.

- **Cynllunio:**
  Sied wedi ei basio gyda'r amod o 25 o ddefaid.

- **Tai wedi eu harwain gan y gymuned - Arfon Hughes, Grwp Cynefin:**
  Diolchodd Arfon Hughes i'r cynghorwyr am eu cymorth a chefnogaeth. 21 wedi nodi bod eisiau symud ty yn yr ardal. Arfon yn edrych ar 10 o dai. Neb wedi rhoi eu henwau ymlaen am dai cymdeithasol dim ond tai fforddiadwy.

  Mae asiant a perchennog y tir angen trafod gyda CBSC am roi cais cynllunio i mewn. Arfon i basio'r wybodaeth ymlaen i berchennog y tir.

  Soniodd Arfon am Gynllun Hunan Adeiladu Cymru.

- **Ethol Swyddogion (Cadeirydd ac Is Gadeirydd):**
  Cyng Austin yn cynnig fel yn y cyfarfodydd blaenorol bod y Cadeirydd presennol yn aros am flwyddyn arall a'r Is-Gadeirydd i gymryd y gadair blwyddyn nesaf. Cyng Phyllis yn eilio. Cynghorwyr i gyd yn cytuno.

- **Enwebu cynrychiolwyr ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Eglwys Bach a Neuadd y Pentref:**

  Ysgol – Cadeirydd i gario ymlaen.
  Neuadd y Pentref – Cyng Ceri i gario ymlaen.

6. **CYNLLUNIO**

   Dim cais.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

   Cyfredol - £6,857.54
   Angladdau - £1,968.20
   Cadw - £2,072.88

   **Sieciau:**
   - Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £122.50
   - HMRC - £50.00
   - Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
   - Neuadd Aberconwy (llogi stafell bach a'r neuadd - Cynefin) - £61.00
   - Wil Williams (torri a hel glaswellt – 18/04/19) - £345.00

8. **GOHEBIAETH**

   - **E-bost: Llywodraeth Cymru - Arolwg cynghorau tref a chymuned Cymdeithas Prif Swyddogion Cynllunio Cymru:**
     Cyng Ceri wedi ymateb ac yn fodlon cwblhau yr arolwg ar ran y cyngor.

   - **E-bost: Cymdeithas Y Llu Awyr Brenhinol - Cymdeithas Y Llu Awyr Brenhinol y chwilio am Wirfoddolwyr:**
     Nodwyd er gwybodaeth – Cyng Ceri yn rhoi ar 'Facebook'.

   - **E-bost: Un Llais Cymru - Canllawiau ar Taliadau i Aelodau Cynghorau Cymuned a Thref:**
     Yn y gorffennol mae'r Cynghorwyr wedi gwrthod hawlio.

   - **E-bost: Un Llais Cymru - Papur Pleidleisio ar gyfer Fwrdd Cyfeiriol Budd-ddeiliaid Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr:**
     Nodwyd er gwybodaeth.

   - **E-bost: Un Llais Cymru – enwebiad ar gyfer y Pwyllgor Ardal:**
     Enwebwyd y Cadeirydd a Cyng John.

   - **E-bost: Un Llais Cymru - Digwyddiad Rhwydweithio/Cynhadledd ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Chymorth Cynllunio Cymru:**
     Cyng Ceri i fynychu.

- **E-bost: Datblygu Gwledig Conwy – Mae'n Amser i Siarad:**
  Nodwyd er gwybodaeth.

- **E-bost: Einir Jones, Rheolwr Busnes Ysgol Eglwys Bach – Cyfraniad Ariannol:**
  Cyng Austin yn cynnig roi cyfraniad. Cyng Phyllis yn eilio. Neb yn gwrthwynebu.
  Cyng Austin yn cynnig £200. Cyng Gwilym yn eilio. Holl Gynghorwyr yn cytuno.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- **Goleuadau Stryd:**
  CBSC yn dweud bod does dim ateb hawdd i hyn - mae rhaid bod rheswm digonol pam nad ydynt yn dilyn hyn.

- **Cwynion o Fandaliaeth:**
  - Fandaliaeth yn Llan Ffarm. Yr Heddlu wedi bod yno.
  - Llythyr gan Sue Hayward am fandaliaeth yn y toiledau. Cafwyd trafodaeth os fuasai sesiwn gan yr Heddlu am ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn ddefnyddiol i ddisgyblion Ysgol Eglwys Bach.
  - Heol Martin – coeden 'er cof' wedi cael ei ladd gan chwynladdwr.

- **Cae Chwarae:**
  E-bost gan Bryn Shiland, CBSC yn dweud bod y cae chwarae yn eiddo'r Cyngor Cymuned. Cyng Austin wedi gofyn os ydy'r Cyngor Sir yn fodlon i gario ymlaen i cynnal a chadw'r offer chwarae a Cyngor Cymuned Eglwys Bach yn fodlon talu CBSC neu rhywyn rhatach i dorri'r gwair.

- **Wal wedi disgyn ar ôl Bodnod:**
  Wal wedi disgyn ar y chwith wrth fynd allan o'r pentref. Cyng Austin i edrych ar hyn.

- **Pwyllgor Eisteddfod**:
  24 Mai - Bingo yn y Neuadd.

- **Cerdded Cwn – Bryn Hir (bont wedi cau):**
  Cyng Austin i drafod gyda CBSC a roi yr ymateb ar 'Facebook' a'r hysbysfwrdd.

- **Ffordd Rhiwlas yn 'ddrwg':**
  Cyng Austin i gael golwg ar beth yn union ydy'r broblem.

- **Hysbysfwrdd:**
  Cwyn ynglyn â gwaith papur hen ar yr hysbyswrdd. Yr gwaith papur i gael ei ddiweddaru.

- **Ffens wrth yr afon**
  Bydd ffens ychwanegol dros dro yn cael ei godi.

10. **DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF**

04/06/19, 02/07/19, 03/09/19, 01/10/19, 05/11/19, 03/12/19.

Daeth y cyfarfod i ben am am 9.10 o'r gloch.